OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 349 (Cy. 108)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Troadau Lower Genffordd a Phengenffordd, i'r De o Dalgarth, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

*Gwnaed* *8 Mawrth 2016*

*Yn dod i rym* *15 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Parc Glan-wysg – Llys-wen (yr A479) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Troadau Lower Genffordd a Phengenffordd, i'r De o Dalgarth, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 15 Mawrth 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw:

i. y darn o’r gefnffordd a adnabyddir fel troadau Lower Genffordd, i’r de o Dalgarth yn Sir Powys sy’n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ymyl sy’n arwain at Drewalkin hyd at bwynt 180 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ymyl sy’n arwain at Whitelow Farm; a

ii. y darn o’r gefnffordd wrth Bengenffordd yn Sir Powys sy’n ymestyn o bwynt 350 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ymyl sy’n arwain at Genffordd Farm hyd at bwynt 60 o fetrau i’r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.